# YSGOL Y PRESELI

COFIA DDYSGU BYW

# Y GARREG LAS

# CYLCHLYTHYR NADOLIG
# 2017
# CHRISTMAS NEWSLETTER

Ffôn: 01239 831406
Rhif Llinell Absenoldeb: 01239 831009
E-bost: swyddfa@ysgolypreseli.com

# Gair Gan y Pennaeth / Word From the Headteacher

Braint ac anrhydedd oedd derbyn gwahoddiad y Corff Llywodraethol Dros Dro ac Awdurdod Addysg Sir Benfro i arwain Ysgol Gymraeg Newydd 3-16 Hwlffordd ac Ysgol y Preseli fel Pennaeth Gweithredol.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y sialens o sefydlu a datblygu'r ysgol newydd ochr yn ochr â sicrhau bod safonau Ysgol y Preseli yn parhau ymysg y gorau yn y wlad. Pleser oedd gweld Ysgol y Preseli yn cael ei chynnwys yn y deg uchaf o ysgolion Cymru fel rhan o arolwg 'The Sunday Times Parent Power' yn ddiweddar. Mae sefydlu'r ysgol newydd yn Hwlffordd yn ddathliad o lwyddiant addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Benfro. Ein nod fydd i ddatblygu ysgol arloesol 3-16 a fydd yn darparu addysgu cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf mewn partneriaeth ag Ysgol y Preseli a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo.

Hoffwn longyfarch Mr Trystan Phillips, Mrs Meleri Williams y tîm o athrawon teithiol a disgyblion yr ysgol am eu llwyddiant eleni yng Ngwŷl Valero. Llwyddodd yr ysgol i ennill 38 o wobrau amrywiol. Llongyfarchiadau i chi gyd.

Rwy'n falch iawn bod disgyblion Ysgol y Preseli yn gyson yn meddwl am eraill ac yn gwneud cyfraniadau ariannol i blant dan anfantais. Codwyd dros £8,000 tuag at elusen Plant Mewn Angen eleni. Llongyfarchiadau i ddisgyblion Bl 10 y Fagloriaeth am arwain y gweithgareddau ac i'r athrawon am gynorthwyo'r disgyblion.

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n bresennol yn Theatr y Gromlech ar gyfer ein Ffair Nadolig nos Iau, Tachwedd 30ain 2017. Codwyd bron £5,000 tuag at gronfa'r ysgol. Mae hyn yn swm sylweddol a diolch yn arbennig i swyddogion y Pwyllgor Ffrindiau a staff y Swyddfa am gydlynu'r gweithgareddau.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi gyd am eich cydweithrediad a chefnogaeth yn ystod 2017 ac ar ran staff a llywodraethwyr Ysgol y Preseli, dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

*It is an honour and privilege to have accepted the Temporary Governing Body and Pembrokeshire Local Education Authority's invitation to become the Executive Headteacher of the new 3-16 Welsh Medium School in Haverfordwest and Ysgol y Preseli.*

*I am looking forward to the challenge of establishing and developing the new school as well as ensuring that Ysgol y Preseli's standards continue to place it amongst the top schools in the country. It was a pleasure once again to see Ysgol y Preseli named as one of Wales' top ten schools in the recent Sunday Times Parent Power survey.*

*The establishment of the new school in Haverfordwest is a celebration of the success of Welsh Medium education in Pembrokeshire. Our aim will be to develop a pioneering 3-16 school which will deliver Welsh-medium education of the highest quality in partnership with Ysgol y Preseli and the feeder primary schools.*

*I would like to congratulate Mr Trystan Phillips, Mrs Meleri Williams the team of peripatetic music leaders and the pupils on their successes in this year's Valero Music Festival. The School was awarded 38 separate prizes. Congratulations to everyone.*

*I am very proud that pupils at Ysgol y Preseli are always thinking of others and of children less fortunate than themselves. Over £8,000 was raised for Children In Need on November 16th. Congratulations to the Year 10 Welsh Baccalaureate pupils for organising the activities and to the teachers for supporting them.*

*Thank you very much to everyone who attended our annual Christmas Fayre which was held at the school on Thursday, November 30th. Almost £5,000 was raised towards school funds. This is an excellent sum and special thanks to the members of the Friends of Ysgol y Preseli committee and the office staff for coordinating the activities.*

*I would like to take this opportunity to thank everyone for their cooperation and support during 2017 and on behalf of the staff and governors of Ysgol y Preseli, I wish you all a very Happy Christmas and prosperous New Year.*

*Michael Davies*
*Pennaeth Gweithredol/Executive Headteacher*

# Blwyddyn 7 / Year 7




**Zac West**
Mae Zac yn nofio i glwb 'Fisghuard Flyers' ac wedi cael ei ddewis i nofio i dîm y Sir. Bu'n cystadlu mewn cystadleuaeth genedlaethol yn ddiweddar a chael llwyddiant mawr. Da iawn wir!

Zac is an accomplished swimmer for the Fishguard Flyers club and has been chosen to represent the county. He recently took part in a national competition with great success. Very well done!




**Nia Llewellyn**
Llwyddodd Nia i ennill nifer o wobrau ym mhencampwriaeth ei chlwb 'Haverfordwest Seals'.
Cafodd Nia 5 wobr aur ac 1 efydd! Llwyddiant ysgubol!

*Nia has succeeded in winning numerous awards as a member of the Haverfordwest Seals championship. She has received 5 gold awards and 1 bronze. An excellent achievement!*



**Alys Webb**
Llongyfarchiadau i Alys sydd wedi bod yn cystadlu'n frwd ar y penwythnosau mewn amrywiol galâu nofio.
Mae ei gwaith caled ac ymroddiad yn y pwll nofio i'w ganmol. Da iawn wir!

*Congratulation to Alys who has been competing in numerous swimming galas on the weekends. Her hard work and dedication in the pool should be commended. Very well done!*




**Megan yn dangos ei ffitrwydd -** Llongyfarchiadau enfawr i Megan Cole am ennill y gwobrau 'Aelod y Flwyddyn' a 'Triathlete y Flwyddyn' ynghyd â chasglu'r cyfanswm mwyaf o bwyntiau i ferch i'w chlwb triathlon, Just Tri. Gwych!

***Megan showing her fitness -*** *Congratulations to Megan on winning the numerous awards recently. She received the member of the year, triathlete of the year as well as collecting the most amount of point by a female athlete for her triathlon club, Just Tri. Excellent!*




**Dafydd yn dangos ei gyflymder -** Fe wnaeth Dafydd Green gystadlu yn Ras Sion Corn yn Aberteifi yn ddiweddar a llwyddo i ddod yn 9fed allan o 52 o redwyr gan gynnwys oedolion. Llongyfarchiadau Dafydd!

**Dafydd showing his speed -** *Dafydd Green recently competed in the Santa Run in Cardigan and succeed in achieving 9th out of 52 runners including adults. Congratulations Dafydd!*




**Dawn naturiol ar y llwyfan -** Llongyfarchiadau i Aled Lloyd o flwyddyn 7 am dderbyn y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth CFfI y Sir ac ail yn y gystadleuaeth YFC Cenedlaethol yn adrodd digri. Seren y llwyfan yn amlwg!

***A natural talent on stage -*** *Congratulations to Aled Lloyd from year 7 on achieving first place at the County YFC competition and second at the National CFfI competition competing in the comical narration. A star of the stage!*

**Sêr cerddorol -** Llongyfarchiadau i Daisy Whitfield a Sarah Likeman ar gael cydradd ail yn y gystadleuaeth soddgwrdd gradd 4 Valero ac i Lefi Dafydd (clarinét) a Gruffudd Jones (trwmped) ar chwarae ym mand y Sir mewn cyngerdd yn ddiweddar - disgyblion â thalent offerynnol arbennig!

***Musical stars -*** *Congratulations to Daisy Whitfield and Sarah Likeman on achieving joint second in the grade 4 cello Valero competition and also to Lefi Dafydd (Clarinet) and Gruffudd Jones (trumpet) for representing the county band at a recent concert. Students with an excellent musical ability!*

**Arbennigedd Karate/Kung Fu -** Mae Robert Luke wedi llwyddo i ennill gwregys glas a gwyn Carati yn ddiweddar a Jake Watts wedi llwyddo i ennill ei bedwerydd gwregys Kung Fu ac felly yr hawl i ymarfer– bechgyn talentog iawn!

**Karate and Kung Fu expertise -** Robert Luke has recently succeed in gaining a blue and white striped belt in Karate and Jake Watts his fourth Kung Fu belt and full practise licence - very talented boys!




**Barod i gynnig cymorth -** Llongyfarchiadau i Jesse Ormond ar lwyddo i basio rhan gyntaf y cymhwyster Cymorth Cyntaf.

***Ready to offer aid*** - *Congratulations to Jesse Ormond on passing the first part of his First Aid course. Well done!*

# Blwyddyn 8 / Year 8




**Chwaraeon**
Llongyfarchiadau i Elis Humfryes ar ennill dwy bencampwriaeth am rasio cwod 250cc yn y 'Welsh' a'r 'Club'. Mae Elis yn aelod o Glwb Motocross Dredgers-Laugharne. Mae ef wedi derbyn dau dlws a chafodd darian arbennig am ei lwyddiannau eleni.

***Sporting Successes***
*Congratulations to Elis Humfreys who recently won both the club and Welsh quad 250cc Racing Championships. Elis, a member of Dredgers-Laugharne Motocross Club, was awarded 2 trophies and a special shield to commemorate his successes this year.*

Llongyfarchiadau i Ffion Barnikel am fod yn rhan o dîm buddugol ar Dachwedd 28ain yng ngala nofio'r Urdd ac o ganlyniad fe fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli rhanbarth Sir Benfro yng Nghaerdydd ym mis Ionawr.

*Congratulations also to Ffion Barnikel who on the 28th November was part of the winning team in the Urdd swimming gala. As a result, Ffion will be representing Pembrokeshire in the National gala that takes place in Cardiff in January.*



**Diwrnod ABCh**
Cynhaliwyd diwrnod ABCh buddiol arall ddydd Iau, Rhagfyr 14eg i holl ddisgyblion blwyddyn 8 gyda darparwyr allanol yn cynnig cyngor a gwybodaeth bwysig ar nifer o wahanol themau personol a chymdeithasol.

***PSE Day***
*Another successful PSE day was held at the end of the term for all year 8 pupils. External providers shared their expertise with pupils on a variety of personal and social issues.*



# Blwyddyn 9

**Llwyddiannau Gŵyl Gerdd Valero**

Llongyfarchiadau enfawr i'r canlynol ar eu llwyddiannau yng Nghŵyl Gerdd Valero 2017. Bu disgyblion blwyddyn 9 yn hynod o brysur yn ystod y dydd yn cystadlu mewn amryw o gystadlaethau.

*Congratulations to all the students from year 9 who competed in the Valero Music Festival . The students were busy competing in several different competitions throughout the day.*

- Catrin Bishop, 2il Llinynnau Gradd 5
- Eve Mathias, 3ydd Llinynnau Gradd 5
- Anna Likeman, 3ydd Llinynnau Gradd 6
- Ceris Walters, 2il Obo a Ffliwt Gradd 4
- Seren Phillips, 3ydd Clarinet a Sacsoffon Gradd 4
- Pedwarawd Preseli, 1af Ensemble Gradd 5
- Catrin Bishop a Sara O'Connor, 3ydd yn y Ddeuawd Offerynnol
- Sarah Likeman a Daisy Whitfield, 2il Llinynnau Gradd 4
- Branwen Vaughan, 1af Jazz Gradd 3-5







**Gruffydd Green**

Unwaith yn rhagor eleni, mae Gruffydd wedi bod yn brysur yn cystadlu mewn nifer o gystadlaethau hwylio. Braf yw nodi bod Gruffydd wedi cael ei ddewis i fod yn rhan o dîm hwylio Cymru. Mi fydd y profiad hwn yn fodd i Gruffydd ehangu ei sgiliau yn ogystal â chynrychioli ei wlad unwaith eto eleni.

*Gruffydd is a keen year 9 competitor. He has competed in numerous sailing competitions throughout the year. It is a pleasure to note that all of Gruffydd's hard work has certainly paid off. Gruffydd has now been chosen to be a part of the Welsh sailing team. Well done! Pob lwc i ti Gruffydd!*

**Diwrnod ABCh Blwyddyn 9**

Bu nifer o asiantaethau amrywiol yn ymweld 'r ysgol yn ddiweddar er mwyn cynnal diwrnod ABCh blwyddyn 9. Cafodd y disgyblion i gyd y cyfle i gymryd rhan mewn gweithdai yn ymwneud a iechyd meddwl, addysg gyrfau, cadw'n iach a ffit. Diolch i'r darparwyr am eu brwdfrydedd a'u cyngor doeth.

***Year 9 PSE Day***

*At the end of this term, a PSE day was arranged for all year 9 pupils encompassing issues such as mental health, careers advice, keeping fit and healthy. Thanks to all speakers for their enthusicsm during the day.*



# Blwyddyn 10 / Year 10

Mae ein blwyddyn wedi gweithio'n ddiwyd y tymor hwn wrth iddynt godi arian tuag at achos da, sef Plant Mewn Angen, fel rhan o'u sialensiau sy'n ymwneud â'r Fagloriaeth. Doedd neb yn disgwyl iddynt godi cymaint o arian ag y gwnaed. Maent yn haeddu bob clod a diolch am eich holl waith caled. Ardderchog!

Bu'r ddawnswraig o'n plith, Ela Llewellyn yn teithio ledled y wlad gyda'i chwaer i gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau ac yn llwyddo ar nifer o achlysuron. Llongyfarchiadau mawr i ti Ela a dal ati!

Unwaith yn rhagor mae Caryl Davies wedi bod yn brysur tu hwnt yn arddangos ei tharw ac yn ennill tipyn o sylw yn y wasg ar hyn o bryd. Aethpwyd i'r Ffair Aeaf lle'r enillodd Is-bencampwr yr Adran Iau. Gwych!



Hoffwn longyfarch Michael Phelps y flwyddyn, Tom Webb ar ei lwyddiant yng ngala nofio'r Urdd yn ddiweddar. Mae ef yn mynd ymlaen i gynrychioli rhanbarth Sir Benfro ym mis Ionawr yng Nghaerdydd.

*Our year ten have done a tremendous job this term with regards to raising funds for Children in Need and all as part of their challenges with regards to the Baccalaureate. No one ever dreamt that £8085.00 would be raised! This year really deserve a pat on the back and a huge thank you for their hard work. Outstanding work guys!*

*The dancer of our year, Ela Llewellyn, has been at it again travelling far and wide to various competitions with her sister. They both have done amazingly well with regards to putting Wales on the map within the dancing community.*

*Caryl Davies has been in the limelight at the Winter Fair in Builth exhibiting her bull. She managed to bag a rosette as the "Reserve Champion Junior Young Handler. Brilliant!*



*Another pupil who has done well this term is Tom Webb. Tom won his heats in the Urdd's swimming gala and is off to Cardiff in January to represent Pembrokeshire. Good luck Tom.*

# Blwyddyn 11 / Year 11



Mae gan nifer o ddisgyblion blwyddyn 11 dalentau allgyrsiol. Ioan a Garan Croft yw dau o'r rhain.

Mae'r ddau yn serennu yng nghamp heriol bocsio, Ioan yn y pwysau 53kg a Garan yng nghategori trymach 60kg. Mae'r gwahaniaeth yn eu pwysau yn golygu na fyddant byth yn cwrdd yn y sgwar bocsio, ond maen nhw'n aml yn ymarfer fel partneriaid paffio.

Yr hyn sydd fwyaf anarferol yw eu bod yn adlewyrchu ei gilydd yn eu llwyddiant. Mae'r ddau'n bocsio dros Gymru ac wedi ennill teitlau cenedlaethol o bwys, a gall y ddau anelu at gystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad a hyd yn oed yn y Gemau Olympaidd.

*Nid dewis hawdd mo bocsio mewn unrhyw ffordd. Rhaid i'r bechgyn deithio ar hyd a lled Prydain, ac ymarfer yn ddiwyd. Ond maen nhw'n llwyddo i gadw cydbwysedd trwy weithio at eu TGAU, ac mae'r ddau'n anelu'n uchel.*

*Eu gobaith yw bod yn Los Angeles yn 2022, a rwy'n bwriadu cael sedd flaen wrth y sgwar bocsio i weld bois y Preseli'n fuddugol yno!*

*Yn y newyddlen nesaf, rhoddir sylw i fyfyriwr talentog arall sydd wedi serennu'n genedlaethol ym maes neidio ceffylau – Niamh Donovan.*

*There are many pupils in year 11 who have talents that lie outside of the school curriculum. Ioan and Garan Croft are two of those.*



*Both boys excel in the demanding sport of boxing, Ioan at the weight of 53kg and Garan at the heavier weight of 60kg. The weight difference means that they never meet competitively but often tear into each other while sparring.*

*What is most unusual is that their success mirrors each other. Both box for Wales, both have won major national titles and now both can realistically aim for the Commonwealth and even Olympic games.*

*Ioan and Garan started boxing at the early age of 8, following in the foot-steps of their dad. With his guidance and that of Kevin O'Sullivan at the Cardigan gym, they were soon identified by Wales and joined the national team at the age of 12.*

*Boxing is by no means an easy choice. The boys travel the length of the country and follow a brutal training regime. This is all balanced, of course, by GCSE work as both boys are aiming high.*

*The hope has to be Los Angeles 2022 where I hope to have ring side seats to watch a Preseli triumph!*

*The next edition of Y Garreg Las will focus on another talented student who has excelled nationally in her chosen sport of event jumping; Niamh Donovan.*

# 6ed Dosbarth / 6th Form

Yn ystod mis Hydref teithiodd 24 o ddisgyblion o Flwyddyn 12 i Barc y Sgarlets yn Llanelli ar gyfer cynhadledd Rhwydwaith Seren. Yn ystod y diwrnod cafodd y disgyblion gyfle i fynychu amryw o ddarlithoedd gan arbenigwyr pynciol a chynrychiolwyr o Brifysgolion amrywiol. Cafwyd anerchiad ysbrydoledig gan Adam Price AC a braf oedd clywed am ei brofiadau tra'n fyfyriwr ym Mhrifysgol Harvard.

*During October, 24 pupils from Year 12 travelled to Parc y Scarlets, Llanelli for the Seren Network Conference. During the day pupils were able to attend lectures delivered by subject specialists and representatives from leading Universities. Adam Price AM delivered an interesting and inspirational lecture based on his experiences as a student at Harvard University.*

Yn ystod y tymor teithiodd 21 o ddisgyblion o Fl 12 i gynhadledd Iechyd yn Ysgol Bro Teifi. Yn ystod yr ymweliad cafodd y disgyblion y cyfle i drafod gyrfaoedd gwahanol sydd ar gael yn y sector iechyd gydag arbenigwyr.

*During the term 21 pupils from Year 12 travelled to Ysgol Bro Teifi to attend a Health conference. During the visit the pupils were given an opportunity to discuss various careers within the health sector with experts.*

Yn ystod mis Tachwedd fel rhan o'r broses o baratoi disgyblion ar gyfer llwybrau'r dyfodol cafodd disgyblion Bl 13 gyfle i gael profiad cyfweliad. Rydym yn falch iawn bod aelodau o Glwb Rotari Arberth a Hendy gwyn wedi ein cynorthwyo gyda'r broses.

*During November as part of our processes linked to preparing pupils for future pathways, Year 13 pupils were given an opportunity to complete a mock interview. We are grateful that members of Narberth and Whitland Rotary Club were able to support us so professionally again this year.*

Rydym yn ddiolchgar iawn i Dr.Jack Castle, Hywel Davies a Dr. Jo Robbins am helpu'r 6 disgybl o Fl 13 a gafodd cyfweliadau ym Mhrifysgol Caergrawnt a Rhydychen yn ddiweddar.

*We are grateful to Dr Jack Castle, Hywel Davies and Dr Jo Robbins for helping the 6 pupils from the school who were invited for Oxbridge interviews recently.*

Cafodd tri disgybl o Fl 12 sef Hedd Nicholas, Elen John a Katie Lewis eu dewis gan yr Urdd i fynychu Patagonia yn ystod hanner tymor yr Hydref 2018. Bydd y tri nawr yn canolbwyntio ar godi arian ar gyfer y daith. Llongyfarchiadau mawr i'r tri ohonynt.

*Three pupils from Year 12, Hedd Nicholas, Elen John and Katie Lewis were selected recently by the Urdd to travel to Patagonia during the October half term 2018. The three will now focus on raising money to support their visit. Congratulations to the three of them.*

Ym mis Tachwedd cafodd disgyblion o Fl 13 gyfle i annerch Prifathrawon Sir Benfro ynglŷn â materion LGBTQ a'r ffordd mae'r ysgol wedi mynd ati i greu ethos gynhwysiol.

*During November pupils from Year 13 were given an opportunity to present their views regarding how the school is creating an inclusive ethos with a particular focus on supporting LGBTQ pupils.*

Llongyfarchiadau i dîm siarad cyhoeddus hŷn yr ysgol ar eu perfformiadau gwych yng nghystadleuaeth y Rotari yn ddiweddar. Cafwyd canmoliaeth uchel iawn.

*Congratulations to the public speaking team on their excellent performances in the Rotary competition recently.*



# Cymraeg / Welsh

Wrth agosáu at y Nadolig edrychwn yn ôl ar hanner tymor prysur arall. Bu Efa, Heledd a Nia o'r chweched dosbarth wrthi'n dadlau yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus y Rotari yn ddiweddar. Camerâu cylch cyfyng oedd testun y ddadl eleni, ac fe lwyddodd y tair gyda chymorth medrus Miss Llewellyn i ddweud eu dweud yn blwmp ac yn blaen – llongyfarchiadau ferched!




Teithiodd disgyblion y chweched i Lan-Llyn am dridiau gwerth chweil o ddarlithoedd gan feirdd, llenorion a darlithwyr o Brifysgol Bangor. Fel rhan o arlwy'r cwrs bu blwyddyn 12 yn ddigon ffodus i ymweld â'r Ysgwrn ar ei newydd wedd. Roedd hwn yn brofiad emosiynol ac iasol gan eu bod yn astudio'r ffilm Hedd Wyn ar hyn o bryd. Coron ar y cyfan oedd dychwelyd o'r Bala â theitl pencampwyr talwrn Glan-Llyn, a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol!

Braf oedd teithio i Gilgerran er mwyn cystadlu yn Eisteddfod Ddwl y Mentrau Iaith. Bu blwyddyn 7 a 12 yn cydweithio ac yn cystadlu mewn llwyth o gystadlaethau hwyliog – dyma ddiwrnod i'w gofio a buddugoliaeth i'r Preseli unwaith eto!



*As we approach Christmas we reflect on yet another busy half term. As part of the Rotary's annual public speaking competition Efa, Heledd and Nia from the sixth form succeeded to discuss, debate and deliberate over the use of CCTV cameras in today's society. The debate was a testament to Miss Llewellyn's hard work and expertise – well done girls.*

*Our sixth form pupils recently travelled to Glan-Llyn for a valuable three days of lectures delivered by poets and lecturers from Bangor University. As part of the course year 12 visited the newly renovated Ysgwrn, home of the poet Hedd Wyn. The experience of being in Trawsfynydd brought the film they are currently studying alive. Without a doubt the highlight of the week was winning the poetic contest for the second year in a row!*

*Year 7 and 12 enjoyed a memorable day of competing and collaborating at the Menter Iaith Fun Eisteddfod recently – they certainly had lots of fun and Preseli returned once again with the trophy!*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd o dop y tŵr!

# Saesneg / English



Congratulations to the ***Shakespeare For Schools Festival*** cast on their superb performance of *The Taming of the Shrew* in the Torch Theatre, Milford Haven on the **9th of November**. Following the success of this, the cast then performed again at Theatr y Gromlech on the **22nd of November.** Well done to the Year 9 cast!

*Llongyfarchiadau i'r cast **Gŵyl Ysgolion Shakespeare** ar eu perfformiad o The Taming of the Shrew yn Theatr y Torch, Aberdaugleddau ar y **9fed o Dachwedd**. Yn dilyn eu llwyddiant, perfformiodd y cast eto yn Theatr y Gromlech ar y **22ain o Dachwedd**. Da iawn wir i actorion talentog blwyddyn 9!*

A special thank you to two Year 12 students who assisted in directing the play as part of their Welsh Baccalaureate.

*Mae angen diolch i ddau disgybl o flwyddyn 12 am gynorthwyo gyda'r cyfarwyddo fel rhan o'u horiau Bagloriaeth Cymru.*





Congratulations to the Head boy and Head girl for competing in the **National CEWC debating competition** at Ysgol Dyffryn Amman. The Head girl received recognition for being an 'Oustanding Individual Debater'.

*Llongyfarchiadau i'r Prif ferch a'r Prif fachgen am gystadlu yng ng**ystadleuaeth dadlau cenedlaethol CEWC.** Roedd y Prif ferch wedi derbyn cymeradwyaeth am fod yn 'Ddadleuwr Unigol Arbennig'.*

Llongyfarchiadau i dîm Siarad Cyhoeddus yr Adran Saesneg yn ei llwyddiant yng nghystadleuaeth y Rotari. Enillodd y tim y Diolch gorau, y Cadeirydd gorau a siaradwr gorau ar y noson! Pob lwc i'r tîm yn y rownd nesaf ym mis Ionawr!

*Congratulations to the English Department's Public Speaking team in their success at the Rotary competition in Narberth. The team won best Vote of Thanks, speaker and chairperson and will be moving on to the next round in January. Good luck to them!*



# Mathemateg / Mathematics

**Sialens Mathemateg Hŷn UKMT, 7fed o Dachwedd 2017**

Dewiswyd 10 disgybl o'r chweched i gymryd rhan yn Sialens Mathemateg Hŷn, UKMT ar Dachwedd y 7fed. Ymgeisiodd 3 disgybl o flwyddyn 12 a 7 disgybl o flwyddyn 13.

Llwyddodd Hannah Matthews i ennill tystysgrif 'Gorau yn yr ysgol', 'Gorau yn y flwyddyn', a thystysgrif Arian. Enillodd Hannah Page-Harries a Megan Matthews dystysgrifau Arian a Thomas Rees, Tess Moran a Alex Varney dystysgrifau Efydd. Llwyddodd Joey Mathias o flwyddyn 12 i ennill tystysgrif 'Gorau yn y flwyddyn', a thystysgrif Efydd.





Llongyfarchiadau iddynt hwy oll. Diolch i'r holl ddisgyblion am eu brwdfrydedd, eu hymroddiad a'u hymdrechion.

***Senior UKMT Mathematics Challenge, 7th November 2017***

*10 sixth form pupils where chosen to take part in the Senior UKMT Mathematics challenge on the 7th of November 2017. 3 pupils where chosen from year 12 and 7 from year 13.*

*Hannah Mathews was awarded the certificate for 'Best in school', 'Best in the year' and a silver certificate. Hannah Page-Harries, and Megan Matthews where also awarded silver certificates. Thomas Rees, Tess Moran and Alex Varney received bronze certificates. Joey Mathias from year12 won a certificate for 'Best in year' and a bronze certificate.*







**Cynllun Bydi Rhifedd**

Mae'r cynllun Bydi Rhifedd yn parhau eleni gyda disgyblion blwyddyn 7 yn cael y cyfle i weithio mewn grwpiau bach gydag aelodau'r chweched dosbarth. Yn wythnosol ar foreau dydd Mawrth mae'r cyfarfodydd gyda'r disgyblion yn sefydlu a datblygu cyfeillgarwch drwy weithio ar sialensiau rhifyddol amrywiol. Yn ogystal, mae'n gyfle i drafod bywyd yn eu hysgol newydd a sgwrsio am unrhyw bryderon neu ofidiau.

***Numeracy Buddy Scheme***

*The numeracy Buddy Scheme is ongoing this year with year 7 pupils having the opportunity to work in small groups with members of the sixth form. The meetings take place weekly on Tuesday mornings with pupils establishing and developing friendships through working on a variety of numeracy tasks. The pupils also have an opportunity to discuss life in their new school and chat about any apprehensions or worries.*

# Addysg Grefyddol / Religious Education

**Hana Jones**

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae'r Adran wedi croesawu trydydd aelod o staff i'w plith sef Miss Hana Jones fel myfyrwraing. Hoffai'r Adran ddiolch iddi am ei holl waith caled a'i hymrywmiad i'r pwnc. Hoffai'r Adran hefyd ddymuno'n dda iddi yn ei lleoliad nesaf a phob lwc oddi wrth bawb yn Ysgol y Preseli.



**Noson Agored**

Eleni fe wnaeth yr Adran gyflwyno bob un o artiffactau Crefydd yr Adran ynghyd â amrywiaeth o fwydydd sy'n gysylltiedig gyda amrywiol ddathliadau a gwyliau crefyddol. Hoffai'r Adran ddiolch i ddisgyblion a rhieni am eu cwmni a'u cymorth yn ystod y noson – profwyd i fod yn noson lwyddiannnus iawn.

**Blwyddyn 8**

Fel rhan o ddathliadau Diolchgarwch blynyddol trefnodd yr Adran Addysg Grefyddol gystadleuaeth i greu gweddi Diolchgarwch creadigol. Roedd safon y gwaith yn uchel iawn a roedd dyfarnu buddugwyr o bob dosbarth yn dasg anodd.

Y buddugwyr oedd:-
8P – Ffion Peregrine
8R – Cadi Murray
8E – Elis James
8S – Elfie Dale
8T – Brooke Evans Harries
8L – Angharad Jones
Llongyfarchiadau mawr iddynt ar eu llwyddiant.

***Hana Jones***

*In recent weeks the RE department has welcomed a third member in the form of Miss Hana Jones as a student teacher. The department would like to thank Miss Jones for all her work and dedication towards the subject. We would also like to wish her well in her next placement and the best of luck from all at Ysgol y Preseli.*

***Open Evening***

*This year the department decided to showcase all their Religious Artefacts as well as an assortment of Religious Foods that have links to different Religious celebrations and Holidays. The department would like to thank both parents and students for their company and support during this evening. A very successful evening.*

***Year 8***

*As part of our annual thanksgiving celebrations the RE department organised a competition for Year 8 students to create a creative thanksgiving prayer. The standard of work presented by all classes was very high and made for difficult decisions.*

*The winners were:-*
*8P – Ffion Peregrine*
*8R – Cadi Murray*
*8E – Elis James*
*8S – Elfie Dale*
*8T – Brooke Evans Harries*
*8L – Angharad Jones*



*Congratulations to the above on their achievements.*

# Addysg Gorfforol / Physical Education

**Noson Wobrywo Chwaraeon Sir Benfro**

Llongyfarchiadau mawr i'r tîm rygbi dan-16 am ennill y wobr tîm dan-16 yn Noson Wobrwyo Chwaraeon sir Benfro, a llongyfarchiadau enfawr i gyn ddisgybl o'r ysgol, Jacob Thomas, am ennill y 'Wobr Gydol Oes'! Llongyfarchiadau mawr i nifer o ddisgyblion a chyn ddisgyblion yr ysgol a enwebwyd am y gwobrau amrywiol, gan gynnwys Ella Wintle, Lleucu George, Angharad James a Gethin Davies.



***Pembrokeshire Sports Awards Prize Evening***

*Congratulations to the school's u-16 rugby team for receiving the u-16's team of the year award at this year's Pembrokeshire Sports Awards and a special congratulations to a former pupil, Jacob Thomas, on receiving the Lifetime Achievement award! It was a fantastic event and congratulations to the many pupils and former pupils of Ysgol y Preseli on being nominated for the various awards, including Ella Wintle, Lleucu George, Angharad James and Gethin Davies.*



**Taith Sgïo i Awstria**

Eleni eto, bu'r daith Sgïo i Saalbach, Awstria yn un llwyddiannus iawn gyda 65 o ddisgyblion o wahanol oedrannau ynghyd â 5 aelod o staff yn mwynhau'r profiad o deithio dramor i ddatblygu eu sgiliau sgïo.

***Skiing trip to Austria***

*This year again, another successful skiing trip was enjoyed by 65 pupils and 5 members of staff. This annual event gives youngsters an opportunity to develop their skiing skills as well as enjoy the hospitality and culture of a different country. Thanks go to all staff who supervised the pupils.*

# Celf a Dylunio / Art and Design



Mae 6 aelod o'r chweched dosbarth sef Mari Jones, Elen John, Charlotte Lawrence, Lloyd Jackson, Tanwen McIntyre a Gwenllian Thomas wedi cael eu dewis ar gyfer Prosiect gan Gyngor Celfyddydau Cymru sydd yn dod â myfyrwyr mwy galluog a thalentog Celf a Dylunio at ei gilydd yn y celfyddydau gweledol. Fel rhan o'r Prosiect Codi'r Bar bydd y disgyblion yn mynychu 5 Dosbarth Meistr @ Ysgol Gelf Caerfyrddin Campws Heol Ffynnon Job, yn cymryd rhan mewn ymweliad addysgol ac yn arddangos gwaith mewn arddangosfa gyhoeddus ddiwedd y flwyddyn. Dyma rai delweddau o'r dosbarth meistr cyntaf. Edrychwn ymlaen at weld mwy o gampweithiau yn y dosbarth meistr nesaf!

## Ymestyn y Goreuon
## Raising the Bar

*Following their successful applications, Mari Jones, Elen John, Charlotte Lawrence, Lloyd Jackson, Tanwen McIntyre and Gwenllian Thomas have all been chosen to take part in an Arts Council of Wales project bringing together more able and talented students in the visual arts. The Raising the Bar project pupils will be invited to attend 5 Masterclasses @ Carmarthen School of Art Jobs Well Road Campus, partake in an educational visit and exhibit work in an end of year public exhibition. Here are some images from the first masterclass. We look forward to seeing what they will generate in the next masterclass.*







# Cerdd / Music

Bu nifer fawr o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yng Ngŵyl Gerddorol Valero yn Hwlffordd fis Tachwedd. Dyma restr o'r disgyblion a ddaeth i'r brig yn eu meysydd penodol. Diolch i BAWB a ddaeth i gynrychioli'r ysgol, ac i'r Athrawon Peripatetig a chyfeilyddion am eu cefnogaeth di-flino ac i'r teuluoedd oll am gefnogi.

*Many of our pupils competed at the Valero Music Festival in Haverfordwest in November. Here is a list of the results of the various competitions. Thank you to EVERYONE who competed on behalf of the school, and to the Peripatetic Music Service and accompanists for their support and to the families of everyone involved.*





Jake Watts, 3ydd yn y Chwythbrennau Gradd 6
Nell Evans, 2il yn y Chwythbrennau Gradd 7
Charlie Richards, 2il yn y Clarinet a Sacsoffon Gradd 5
Jack Bruce, Clod Uchel Pres Gradd 4
Tomos Gwilliam, Clod Uchel Gradd 5
Alys Owen, 2il Pres Agored
Rhiannon Andrasko, Clod Uchel Pres Agored
Annest Davies, Clod Uchel Llinynnau Gradd 7
Seren Griffiths, 1af Llinynnau Gradd 5
Catrin Bishop, 2il Llinynnau Gradd 5
Eve Mathias, 3ydd Llinynnau Gradd 5
Anna Likeman, 3ydd Llinynnau Gradd 6
Charlie Richards, 2il Llinynnau Agored
Joe Likeman, Clod Uchel Llinynnau Agored
Ceris Walters, 2il Obo a Ffliwt Gradd 4
Seren Phillips, 3ydd Clarinet a Sacsoffon Gradd 4
Lefi Dafydd, Clod Uchel Clarinet a Sacsoffon Gradd 4
Jencyn Corp, 1af Piano Gradd 4
Marged Harries, 3ydd Piano Gradd 4
Seren Allen, 1af Piano Gradd 5
Nell Evans, Clod Uchel Piano Gradd 6/7
Lefi Dafydd, Clod Uchel Piano Gradd 6/7
Annest Davies, 2il Piano Agored
Seren Lewis, 3ydd Canu Poblogaidd Blynyddoedd 7-9
Molly Thomas, 1af Canu Poblogaidd Blynyddoedd 10-13
Rachael Morgan, 2il Canu Agored
Pedwarawd Preseli, 1af Ensemble Gradd 5
Awen ac Annest Davies, 2il yn y Ddeuawd Offerynnol
Catrin Bishop/Sara O'Connor, 3ydd - Deuawd Offerynnol
Ensemble Pres, 2il yn yr Ensemble Agored
Harvey Watts, 3ydd yn y Cit Ddrymiau Gradd 3-6
Emily Davies, 1af yn y Llinynnau Gradd 4
Sarah Likeman a Daisy Whitfield, 2il Llinynnau Gradd 4
Enfys Griffiths, Clod Uchel Llinynnau Gradd 4
Branwen Vaughan, 1af Jazz Gradd 3-5





Bu'r Parti Cerdd Dant yn cystadlu yng Ngŵyl Gerdd Dant Llandysul fis Tachwedd a hefyd yng Ngyngherddau Nadolig yr ysgol.

*Pictured is the Cerdd Dant Party competing in the Cerdd Dant Festival in Llandysul. They also performed at our Christmas Concerts in Theatr y Gromlech.*

# Daearyddiaeth / Geography



Am dymor prysur! Bu blwyddyn 11 ar ddeuddydd o waith maes yn casglu data ar gyfer eu gwaith cwrs TGAU. Ar y diwrnod cyntaf, aethant i fesur yr afon Syfynwy yn ei tharddiad ym Mhwlch Gwynt yn y Preselau yn Rosebush ac yng Ngelli ger cydlifiad yr afon Syfynwy gyda'r Cleddau Ddu. Cafwyd diwrnod da iawn gan ystyried stormydd trwm y diwrnodau cynt! Ar yr ail ddiwrnod, aeth y disygblion i gasglu mwy o ddata ar effaith datblygiad Santes Catrin ar weddill tref Caerfyrddin.

Yn ogystal, cawsom ddiwrnod llwyddiannus o gasglu data yng Nghaerdydd gyda blwyddyn 13 ar gyfer eu gwaith cwrs Lefel A.

Be' nesa'? Mae'r adran yn edrych ymlaen yn arw am y daith i Wlad yr Iâ ym mis Mawrth, 2018!



*What a busy term! Year 11, Geography pupils recently completed two days of fieldwork collecting data for their GCSE coursework. On the first day, they measured various features of the river Syfynwy from its source in Bwlchgwynt in the Preseli Hills,in Rosebush and at its confluence with the Eastern Cleddau in Gelli. The day was a great success considering the heavy downpours we had the previous day! On the second day, the pupils travelled to Carmarthen to study the effect of St Catherine's Walk development on retail patterns in Carmarthen.*

*Additionally, year 13 pupils successfully collected valuable data in Cardiff for their A Level coursework.*

*What next? The department is eagerly looking forward to a trip to Iceland in March, 2018!*





# Drama

**Arholiadau Ymarferol**

Mae tymor yr Arholiadau Ymarferol wedi cyrraedd ac mae blynyddoedd 11 a 12 wedi bod wrthi'n paratoi'n galed ar gyfer y perfformiadau. Bu'r ddwy flynedd yn perfformio'u darnau dyfeisio nos Fawrth y 12fed o Ragfyr yn Theatr Y Gromlech. Hyfryd oedd cael cwmni ffrindiau a theuluoedd i wylio gwledd o berfformiadau mewn amrywiaeth o arddulliau.

**Practical Exams**

*The Practical Exam season is upon us and the Drama students in Years 11 and 12 have been preparing thoroughly for their performances. Both year groups performed their devised pieces on Tuesday the 12th of December in Theatr y Gromlech in front of friends and families of the pupils to view the variety of styles and genres of theatre that have been created.*

**Follies**

Ar y 28ain o Dachwedd, aeth Blwyddyn 13 i Theatr y Mwldan i wylio perfformiad NT LIVE o 'Follies', drama gerdd gan Sondheim. Roedd gweld perfformiad gan y cyfansoddwr yn brofiad euraidd iddynt gan eu bod yn astudio drama gerdd arall gan Sondheim, 'Sweeney Todd' yn rhan o'u cwrs Safon Uwch.



***Follies***

*On the 28th of November, Year 13 went to Theatr y Mwldan to watch an exciting NT LIVE production of 'Follies', a musical by the famous Sondheim. This was an excellent opportunity for the students as they're studying another musical by the same composer, 'Sweeney Todd' for their A Level course.*




**Taith i Lundain**

Ar y 20fed o Ragfyr, fe fydd 40 o ddisgyblion Blynyddoedd 10-13 yn teithio i Lundain i weld perfformiad o'r sioe gerdd 'Mamma Mia', ymweld â'r London Dungeons ac yna treulio'r diwrnod canlynol yn 'Winter Wonderland' Hyde Park.

***London Trip***

*On the 20th of December, 40 students from Years 10-13 will be travelling to London to watch a performance of 'Mamma Mia', visit the London Dungeons before spending the following day in the magical 'Winter Wonderland' in Hyde Park.*

# Dylunio a Thechnoleg / Design & Technology

Ar y 7fed o Dachwedd, cynhaliwyd gystadleuaeth Cogurdd Ifanc y Rotari yng nghegin ysgol y Preseli. Fe fu rhaid i ddisgyblion goginio pryd bwyd tri chwrs a oedd yn iachus ac yn costio hyd at £15. Bu ddwy o'r chweched dosbarth yn cystadlu ynghyd â disgyblion o ysgol lleol arall a braf adrodd bod disgyblion y Preseli wedi ennill yr ail â'r trydydd safle yn y gystadleuaeth. Da iawn wir a llongyfarchiadau i chi'ch dwy!







*On the 7th of November, the Rotary Young Chef competition was held at Preseli school. Pupils were asked to cook a healthy three course meal for under £15. Two pupils from our sixth form Jessica Balfour and Ceirios Thomas competed against pupils from another local school. We are thrilled to announce that the Preseli pupils won the second and third prize in the competition. Well done and congratulations to you both!*

## BLWYDDYN 10 BWYD A MAETH / YEAR 10 FOOD AND NUTRITION

Fel rhan o'r cwrs TGAU bu grwp o ddisgyblion blwyddyn 10, sy'n astudio'r cwrs TGAU Bwyd a Maeth, yn blasu bara'r cwmni lleol CRWST. Diolch i Osian (cyn ddisgybl) am y bara hyfryd ar gyfer y wers.



*As part of the GCSE Food and Nutrition course, pupils were given the chance to taste bread produced by our local supplier CRWST. Thank you Osian (past pupil) for the lovely bread for our taster session.*

# Technoleg Gwybodaeth a Chyfrifiadureg / Information Technology

Llongyfarchiadau i bawb wnaeth lwyddo i orffen y cwrs Codecombat i lefel uchel iawn. Mae'r clwb wedi bod yn cwrdd bob dydd Iau amser cino. Mae'r disgyblion wedi bod yn codio wrth ddefnyddio wefan *CODECOMBAT.* Llwyddodd y disgyblion i ennill tystysgrif Lefel 21 " Cyflwyniad i Gyfrifiadureg".

Bydd grŵp newydd yn dechrau yn y flwyddyn newydd yn defnyddio *GAMEMAKER.*




*Congratulations to everyone one who completed the Codecombat course . The Coding club meet every Thursday lunch time. The pupils have been using the CODECOMBAT website during the term. Some of the pupils managed to gain a high level score of 21 on the Introduction to Computer science Course. A new group will be starting in the new year using Gamemaker.*




Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd rhan yng nghystadleuaeth Logo Hwb. Derbyniwyd sawl cais llwyddiannus o flwyddyn 9, ond llongyfarchiadau arbennig i Megan Evans am ddod yn fuddugol.

*Congratulations to everyone who took part in the Yr 9 Hwb logo Competition last term. There were many successful entries. Congratulations to the winner*

# Y Fagloriaeth Gymreig / The Welsh Baccalaureate



Codi arian ar gyfer elusen yw ffocws disgyblion Blwyddyn 10 ar gyfer Her y Gymuned y Fagloriaeth. Bu’r disgyblion yn brysur yn cynnal gweithgareddau amrywiol gan gynnwys sêl cist car, golchi ceir, gwerthu nwyddau, cynnal disco a llawer mwy.  I orffen yr Her bu’r disgyblion yn brysur yn paratoi llu o stondinau ar gyfer Ffair Plant Mewn Angen  Ysgol y Preseli ar Ddydd Iau 16eg o Dachwedd.



Cyfanswm yr arian a godwyd oedd £8085.00 Credwn fod hwn yn record i'r ysgol, a diolchwn i'r disgyblion, i'r staff, i'r rhieni ac i'r gymuned am eich cefnogaeth hael.  Mae'n bleser i fedru trosglwyddo'r arian yma i Blant Mewn Angen. ANHYGOEL!










*As part of their Community Challenge for the Welsh Baccalaureate Year 10 pupils accepted the challenge to raise as much money as possible for a charity. Children in Need was chosen as the  focus for the challenge.  Pupils were busy in their local community holding car boot sales, washing cars, selling items and holding school discos.  To complete the challenge pupils held a Children in Need Fair on Thursday 16th November.*

*The total raised was £8,085.00!  We believe that this is a record for the school, and we thank our pupils, staff, parents and the wider community for your generous support.  It's a privilege to be able to pass this money on to  Children in Need. AMAZING!*

**Hysbysiadau Cosb**

Mae'r llythyr hwn yn eich rhybuddio o'r bwriad i gyflwyno hysbysiadau cosb am absenoldebau heb eu hawdurdodi o ysgolion o Ionawr 2015.

Mae'r awdurdod lleol a'r consortiwm ERW yn credu bod unrhyw absenoldeb o'r ysgol, am ba bynnag reswm, yn andwyol i gyfleoedd bywyd hirdymor y plentyn, felly dylid ei osgoi ar bob cyfrif os yn bosib. Mae lleihau absenoldebau o ysgolion yn flaenoriaeth allweddol, yn lleol a chenedlaethol, oherwydd mae colli ysgol yn niweidiol i lefel cyrhaeddiad y disgybl, yn amharu ar drefn arferol yr ysgol, a gall olygu bod disgybl yn fwy agored i ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau ieuenctid.

Defnyddir hysbysiad cosb yn hytrach nag erlyniad gyda'r nod o geisio sicrhau gwelliant ym mhresenoldeb y disgybl.

Gellir cyflwyno hysbysiad cosb yn sgil cais gan yr ysgol, yr heddlu, neu gan Wasanaethau Cynhwysiant Addysg yr awdurdod lleol, mewn perthynas ag absenoldeb heb ei awdurdodi. Os bydd y rhiant/gofalwr yn darparu rheswm dros yr absenoldeb, yna penderfyniad y pennaeth fydd derbyn, neu beidio â derbyn hwnnw, gan sicrhau bod y gofrestr wedi'i marcio'n briodol.

Os gwneir cais am hysbysiad, bydd y rhiant/gofalwr yn cael llythyr rhybudd yn rhoi 15 diwrnod iddyn nhw ddarparu tystiolaeth i'r awdurdod lleol nad oes modd cyfiawnhau'r absenoldebau anawdurdodedig, ac y dylid diwygio'r gofrestr. Os ydy'r absenoldebau anawdurdodedig o ganlyniad i gymryd gwyliau yn ystod amser ysgol, yna ni chyflwynir rhybudd. Noder nad oes yna gyfyngiad ar nifer y rhybuddion ffurfiol y gellir eu cyflwyno.

Os na fydd presenoldeb y disgybl yn gwella, **yna cyhoeddir hysbysiad cosb.** Bydd **taliad o** £60 **yn ddyledus** yn y lle cyntaf, a bydd hwnnw'n codi i £120 os na chaiff ei dalu'n brydlon. Os na thelir y gosb, yna bydd yr awdurdod lleol yn **ystyried cymryd camau i erlyn y rhiant/rhieni** am y drosedd wreiddiol, sef 'methu â sicrhau bod disgybl cofrestredig yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd' dan **Adran 444 (1) neu (1A)** o Ddeddf Addysg 1996.

Cofiwch, os oes yna resymau dros absenoldeb eich plentyn o'r ysgol, yna gallwch ofyn am gymorth ac arweiniad gan staff yr ysgol. Dylech ofyn cyn i'r absenoldeb fynd yn broblem.

## **Penalty Notices.**

This letter alerts you to the introduction of Penalty notices for unauthorised absences from school from January 2015.

The ERW consortium believe that any absence from school, for whatever reason, is detrimental to a child's long term life opportunities, so should be avoided if at all possible. Reducing absence from school is a key priority, both nationally and locally, because missing school damages a pupil's attainment levels, disrupts school routines and can leave a pupil vulnerable to anti-social behaviour and youth crime.

A Penalty Notice is an alternative to prosecution with the aim of seeking to secure an improvement in the pupil's attendance.

A Penalty Notice can be requested by the School, Police or from within the Local Authority Education Welfare Service in relation to unauthorised non-attendance at school. If a reason for absence is provided by the parent/carer then it is up to the head-teacher to decide if they accept it and mark it appropriately. There is no limit to the number of formal warnings which can be issued

If a notice has been requested the parent/carer will receive a warning letter that gives them 15 days to provide evidence to the Local Authority that the unauthorised absences are justified and that the register should be amended. If the unauthorised absences are due to taking a holiday in school time then a warning will not be issued.

If the school attendance does not improve then the **penalty notice will be issued. Payment of** £60 **will be due** in the first instance which may rise to £120 if not paid promptly. If the penalty is not paid then the Local Authority (LA) will consider **issuing prosecution proceedings against parent(s)** for the original offence, which is 'failure to ensure regular attendance at school of the registered pupil' under **Section 444 (1) or (1A)** of the Education Act 1996.

Please remember that if there are reasons why your child is missing school then you can seek support and guidance from staff at your child's school. Ask before the non-attendance becomes an issue.

# Dyddiadau i'w cofio / Dates to remember

**2018**

Ionawr 25ain / *January 25th*
Noson Rieni Bl 11 / *Yr 11 Parents Evening*

Chwefror 8fed / *February 8th*
Noson Rieni Bl 10 / *Yr 10 Parents Evening*

Chwefror 15fed / *February 15th*
Noson Agored i Ddarpar Ddisgyblion Bl 12 / *Open Evening for Prospective Year 12 Pupils*

Hanner Tymor / *Half Term* - 19.02.18 - 23.02.18

Chwefror 27ain - Mawrth 2il / *February 27th - March 2nd*
Sioe yr Ysgol / *School Production*

Mawrth 8fed / *March 8th*
Noson Rieni Bl 7 / *Yr 7 Parents Evening*

Mawrth 15eg / *March 15th*
Noson Rieni Bl 9 / *Yr 9 Parents Evening*





Nadolig Llawen i bawb

Merry Christmas to all